**Adran Lle a Seilwaith**
Uned Gofal Strydoedd / DGFfASN
Bloc 1, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ
**Ffôn: (01267) 224507/08/09**
**E-bost:** gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk

**Department of Place & Infrastructure**
Street Care / NRASWA Section
Block 1, Parc Myrddin, Richmond Terrace, Carmarthen, SA31 1HQ
**Tel: (01267) 224507/08/09**
**E-mail:** streetcare@carmarthenshire.gov.uk

**DEDDF PRIFFYRDD 1980: Adran 169**
**DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991: Adran 59**

# TRWYDDED I GODI A CHADW SGAFFALDIAU AR Y BRIFFORDD

## AMODAU

Trwy hyn mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen) yn rhoi trwydded i'r ymgeisydd (y cyfeirir ato fel "y trwyddedai" o hyn ymlaen), godi a chadw sgaffaldiau (y cyfeirir ato fel "y strwythur perthnasol" o hyn ymlaen) yn y lleoliad a nodir yn y drwydded, ar y briffordd yn unol ag Adran 169 o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn unol â'r amodau canlynol:

1. Cyfrifoldeb y trwyddedai fydd sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.
2. Bydd y trwyddedai yn indemnio ac yn cadw'r Cyngor wedi ei indemnio yn erbyn pob trallod, camau gweithredu, trafodion, hawliadau, gofynion, costau, iawndal a threuliau y gellir eu codi, dwyn, neu wneud yn ei erbyn oherwydd unrhyw fater mewn perthynas â rhoi'r drwydded. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o £5 miliwn i'r Cyngor.
3. Rhaid i'r trwyddedai gymryd pob gofal posibl o fewn rheswm i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio'r briffordd yn ddiogel ac yn cael eu tywys yn briodol, gan roi ystyriaeth yn benodol i anghenion pobl ag anabledd. Tynnir sylw'r trwyddedai at ofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974. Rhaid cyflwyno copi o'r Datganiad a/neu'r Polisi Diogelwch i'r Cyngor ar gais.
4. Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod y strwythur perthnasol wedi'i oleuo'n ddigonol bob amser rhwng hanner awr ar ôl y machlud a hanner awr cyn codiad yr haul.
5. Rhaid cadw'r droetffordd ar agor bob amser gan gynnwys wrth godi'r sgaffaldiau a'u tynnu i lawr. Mewn amgylchiadau lle na ellir cadw'r droetffordd ar agor, rhaid darparu rhodfa arall 1.2 metr o led yn unol â'r Côd Ymarfer Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd. (Cyfeiriwch at Ran 2 Gwaith Troetffyrdd a Llwybrau Troed - gofalu am gerddwyr tudalen 28).
6. Rhaid i'r trwyddedai gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddo/iddi gan y Cyngor neu Awdurdod yr Heddlu mewn perthynas â chodi a chynnal a chadw'r strwythur perthnasol ac arwyddion traffig o ran caniatáu'r drwydded.
7. Rhaid i'r trwyddedai wneud pethau o'r fath mewn perthynas â'r strwythur perthnasol os bydd unrhyw Ymgymerwyr Statudol neu Drwyddedai dan Drwydded Gwaith Stryd yn gwneud cais rhesymol iddo/iddi wneud hynny at ddibenion diogelu neu roi mynediad i unrhyw offer sy'n perthyn i neu'n cael ei ddefnyddio neu ei gynnal a'i gadw gan Ymgymerwyr Statudol neu Drwyddedai dan Drwydded Gwaith Stryd.
8. Nid yw'r drwydded yn esgusodi'r trwyddedai rhag cael unrhyw gydsyniad, trwydded neu ganiatâd arall y gallai fod ei angen ac nid yw'n awdurdodi gosod strwythur perthnasol oni bai a hyd nes y rhoddir y drwydded honno.
9. Balciau - rhaid i falciau neu drawstiau traffig plastig lliwgar llawn dŵr (o leiaf 300mm sgwâr) wedi eu paentio'n wyn ac wedi'u goleuo erbyn nos gael eu gosod mewn modd y mae Arolygydd Gwaith Stryd y Cyngor yn fodlon arno, a'u rhoi at ei gilydd ar y ffordd ar hyd y sgaffaldiau er mwyn atal cerbydau rhag taro'r sgaffaldiau (dim ond yn ofynnol pan fydd y sgaffaldiau'n agosach na 0.5 metr o ymyl y palmant neu fel y cytunwyd arno).

10. Rhaid i'r strwythur perthnasol beidio ag ymestyn i'r briffordd. Rhaid i unrhyw ran gantilifrog o'r strwythur perthnasol beidio â bod yn is na:
    ar unrhyw bwynt dros stryd 5.8m;
    ar lwybr bws 6.1m;
    ar lwybrau llwythi uchel dynodedig 6.4m;
    neu yn unol â chyfarwyddyd yr Awdurdod Priffyrdd.
11. Rhaid i'r sgaffaldiau beidio â bod ag unrhyw flaenau pigog na nytiau/byllt sydd heb eu diogelu o fewn 2.5m o lefel y ddaear.
12. Rhaid i'r holl bolion unionsyth gael eu lapio mewn deunydd ffôm amddiffynnol hyd at uchder o 2m a'u marcio'n amlwg (h.y. marciau coch/gwyn).
13. Dim creffynnau croeslinol ar lefel droetffordd.
14. Darparu platfform byrddau dwbl 'first lift' gyda philen rhyngddo, rhwydi malurion wrth bob ochr i'r strwythur perthnasol ynghyd â fframwaith o fyrddau amddiffynnol agos gyda philen (isafswm uchder fel yn eitem 10 uchod), er mwyn amddiffyn defnyddwyr y briffordd rhag malurion sy'n cwympo.
15. Rhaid cadw'r briffordd yn rhydd rhag yr holl ddeunydd adeiladu ac offer ac ni ddylid cymysgu dim concrid na morter ar y briffordd.
16. Dylid symud y strwythur perthnasol mor fuan â phosibl.
17. Bydd holl gostau'r difrod neu'r gwaith adfer gofynnol yn sgil hynny, yn cael eu hailgodi ar y trwyddedai.
18. Bydd unrhyw gais am ymestyn yr amser yn gorfod cael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Cyngor.
19. Rhaid defnyddio rheolaeth traffig os caiff y gerbytffordd ei lleihau i lai na 5 metr. Rhaid i'r holl waith Rheoli Traffig fod yn unol â'r Côd Ymarfer presennol ar gyfer Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd a Phennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig. (Cyfeiriwch at Adran 3, nodiadau 17-19 wedi'u cynnwys).
20. Yn unol â'r Rheoliadau Traffig a'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol, rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Priffyrdd am y defnydd o Arwyddion Traffig Symudol o leiaf saith diwrnod cyn codi'r strwythur perthnasol.
21. Os bydd y trwyddedai yn methu cydymffurfio â'r amodau uchod, gall yr Awdurdod Priffyrdd ofyn am i'r strwythur perthnasol gael ei waredu'n syth a thalu'r costau rhesymol wrth wneud hynny.
22. Bydd y cwmni sgaffaldiau yn rhoi gwybod i'r Cyngor drwy e-bost o fewn dwy awr ar ôl tynnu'r sgaffaldiau i lawr. Bydd methu gwneud hynny yn arwain at daliadau ychwanegol.
23. Dylai'r sgaffaldiau ddangos plac sy'n nodi'n glir enw a rhif ffôn y cwmni.

**CT Cleaton**
**Rheolwr Gwaith Stryd a Mabwysiadu Priffyrdd**